HSC(6) 31-24 PTN 2

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Rhys Goode
Pennaeth Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
Cymru

21 Chwefror 2024

Annwyl Rhys

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i gefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig. Yn benodol, mae’r Pwyllgor yn trafod sut i wireddu gweledigaeth o ofal holistaidd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl sydd â chyflyrau cronig.

Yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2024, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Jim McManus, Cyfarwyddwr Cenedlaethol dros Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghylch sicrhau bod pobl sydd â chyflyrau cronig yn cael gofal a chymorth i alluogi iddynt gael y canlyniadau iechyd gorau posibl. Tynnodd yr Athro McManus sylw at ofal i bobl sy'n byw gyda HIV fel enghraifft o arfer da.

Hoffai’r Pwyllgor glywed am enghreifftiau o wasanaethau i bobl sy'n byw gyda HIV sy'n darparu gofal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i’n helpu i ddeall beth sy'n eu gwneud yn llwyddiannus. Yn benodol, hoffem glywed am unrhyw gydweithio rhwng gwahanol wasanaethau i ddarparu gofal a chymorth cofleidiol i bobl sy’n byw gyda HIV.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhywfaint o dystiolaeth ysgrifenedig inni ar y pwyntiau hyn, a byddem yn croesawu ymateb gennych erbyn diwedd mis Mawrth. Os hoffech drafod unrhyw faterion mewn rhagor o fanylder, mae croeso ichi gysylltu â’r tîm clercio: seneddiechyd@senedd.cymru.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament